

Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro 2023

Rhoi arweiniad a gwybodaeth gywir i deuluoedd ym Mro Morgannwg o ran yr hyn sy'n bwysig iddynt.

Becky Wicket

Rheolwr Tîm Gwybodaeth Gofal Cymdeithasol



Cynnwys:

(I lywio i adran benodol, cliciwch ar yr eicon yn y gwaelod ar y dde)

1. Cwrdd â'r tîm
2. Rôl y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGiD)
3. Cyflawniadau Allweddol yn 2022-23
4. Heriau Allweddol yn 2022-23
5. Ymholiadau GGiD yn 2022-23
6. Adborth gan Rieni/Gofalwyr a Gweithwyr Proffesiynol
7. Camau Gweithredu Allweddol ar gyfer 2023-24
8. Manylion Cyswllt

1. Cwrdd â'r tîm



2. Rôl y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

2.1 Mae GGiD y Fro yn wasanaeth gwybodaeth un stop i rieni a gofalwyr plant a phobl ifanc 0-20 oed ym Mro Morgannwg, yn ogystal ag i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda theuluoedd a darparwyr gofal plant.

2.2 Darparu rhan annatod o'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cymorth a Chyngor (GCC) ar gyfer y Cyngor, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

2.3 Galluogi'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau dan Adran 27 Ddeddf Gofal Plant 2006 ynghylch rhoi gwybodaeth ragnodedig i rieni a darpar rieni am ofal plant a gwasanaethau neu gyfleusterau eraill.

2.4 Mae'r GGiD yn cynnig gwybodaeth ac arweiniad am ddim ynghylch gofal plant, cymorth gyda chostau gofal plant, grwpiau ar gyfer rhieni newydd, gweithgareddau i blant a phobl ifanc, gwasanaethau cymorth i deuluoedd ac yn gyffredinol, popeth sy'n bwysig i deuluoedd.

2.5 Rydym hefyd yn rhoi gwybodaeth ac arweiniad i ddarpar ddarparwyr gofal plant a darparwyr gofal plant presennol, i gefnogi'r sector.

2.6 Cynnal cronfa ddata ar-lein o ofal plant a gwasanaethau i blant, pobl ifanc a theuluoedd yn y Fro drwy [wefan Dewis Cymru](#) sy'n bwydo drwodd i [wefan Gwybodaeth Gofal Plant Cymru](#).

2.7 Gweithio'n agos gyda phartneriaid gan gynnwys y Tîm Gofal Plant a'r Blynnyddoedd Cynnar, Dechrau'n Deg, Llinell Gymorth Teuluoedd yn Gyntaf, Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, Dysgu a Sgiliau, a mwy, i sicrhau bod gwasanaeth di-dor, gwerthfawr yn cael ei gynnig i deuluoedd a darparwyr yn y Fro.

2.8 Mae ein hanimeiddiad yn esbonio ein gwasanaeth mewn fformat mwy hygyrch:



<https://sway.office.com/xj81aD3o35b8SNQT#content=dQMn6CdILOQ4wl>

2.9 Gweinyddu'r [Mynegai ar gyfer teuluoedd plant a phobl ifanc sydd ag anableddau neu anghenion ychwanegol](#), er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn gysylltiedig â gwasanaethau a chymorth. Erbyn hyn mae 1013 o blant wedi'u cofrestru ar y Mynegai.

2.10 Hyrwyddo [Cynnig Gofal Plant 30 Awr Llywodraeth Cymru](#) sef cyllid ar gyfer plant 3 a 4 oed yn y Fro. Cefnogi rhieni i wneud cais am y Cynnig a darparwyr gofal plant i gofrestru ar gyfer y Cynnig.





3. Cyflawniadau Allweddol

Dyma rai enghreifftiau o'n cyflawniadau allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf:

3.1 Ymatebwyd i 1,619 o ymholiadau


3.2 Curadwyd y Rhaglen Gweithgareddau Haf o Hwyl ar gyfer y gwyliau trwy weithio gyda Rheolwr y Tîm Byw'n Iach. Cynhaliwyd 147 o weithgareddau am ddim dros 3 mis ac edrychwyd ar y rhaglen ar-lein dros 28,000 o weithiau. Roedd hyn yn llwyddiant ysgubol.



3.3 Mwy o allgymorth yn y gymuned trwy fynychu ysgolion, digwyddiadau, grwpiau rhieni a phlant bach, cynlluniau chwarae. Gwnaeth hyn arwain at 189 o ymholiadau (3 gwaith yn fwy na'r flwyddyn flaenorol). Un digwyddiad arbennig o lwyddiannus a drefnwyd gan y GGiD oedd Digwyddiad Gwybodaeth i Rieni yn Llyfrgell y Barri, lle buom yn gweithio gyda Dysgu Oedolion a phartneriaid. Aeth 80 o rieni i'r digwyddiad i gael gwybod am help gyda chostau gofal plant, gofal plant, cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant ac ati.



3.4 Cafodd y system ddigidol genedlaethol newydd ar gyfer Cynnig Gofal Plant Cymru ei rhoi ar waith ledled Cymru ac aeth yn fyw ym mis Ionawr 2023. Sicrhodd y tîm fod hon yn cael ei chyflwyno'n effeithiol ac yn ôl yr amserlen yn y Fro. Mae 380 o blant bellach yn derbyn y Cynnig Gofal Plant drwy'r system ddigidol newydd ac mae 132 o ddarparwyr wedi cofrestru. Mae'r tîm bellach yn rheoli gwasanaeth teleffoni ychwanegol. Ar gyfer y flwyddyn academiaidd gyfan (Medi 22 - Ebrill 23) mae 1048 o blant yn manteisio ar y Cynnig Gofal Plant, sef 56% o'r holl blant 3-4 oed (darparwyd data gan y Gwasanaeth Iechyd ac Addysg ar nifer y genedigaethau).



3.5 Ar hyn o bryd mae 1,013 o blant a phobl ifanc wedi'u cofrestru ar y Mynegai. Yn y flwyddyn ddiwethaf, roedd 164 o blant wedi cael eu cofrestru, sy'n gynnydd o 46% ers y flwyddyn flaenorol. Rydym wedi gweithio'n agos gyda Llinell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf i sicrhau bod rhieni sy'n dymuno cael eu cofrestru, yn cael eu hatgyfeirio trwy'r gronfa ddata Gwasanaethau Cymdeithasol, sydd wedi gweithio'n eithriadol o dda.

3.6 Cafodd cylchlythyr y Mynegai ei adolygu a'i gynhyrchu mewn copi caled a fformat digidol fel 'llyfr fflipio'. Mae copïau caled hefyd yn cael eu dosbarthu yn y gymuned ac i ysgolion i sicrhau bod gwybodaeth yn cyrraedd rhieni.

3.7 Hyrwyddodd Swyddog y Mynegai y cylchlythyr diweddaraf ar y rhwydwaith staff a manteisiodd ar y cyfle i ofyn i staff gwblhau arolwg byr yn rhoi adborth ar y cylchlythyr. Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol iawn ac yn cynnwys:

'Mae'n glir ac yn lliwgar sy'n ddeniadol', 'Addysgiadol iawn gyda gwybodaeth gyfredol, 'Rwy'n teimlo ei bod yn amhosibl targedu popeth, mae ynddo ystod eang o erthyglau ac mae'n bosibl na fyddwn yn ei ddarllen pe bai'n hirach'.

Y bwriad yw gwneud yr un peth gyda'r cyhoedd yn dilyn cylchlythyr yr haf.

3.8 Lanswyd ffurflen gofrestru ar-lein symlach a mwy hygyrch newydd ym mis Mawrth 2022. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i rieni gofrestru ar Y Mynegai.

3.9 Gwybodaeth well am wasanaethau a chymorth ar wefan Dewis Cymru - mae 586 o adnoddau wedi'u hadolygu a'u cyhoeddi.

3.10 Mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi parhau'n offeryn marchnata a chyfathrebu effeithiol ac mae gennym bron i 3,500 o ddilynwyr ar Facebook, sy'n gynydd o 500 o ddilynwyr ers y llynedd. Y postiad mwyaf llwyddiannus oedd y Digwyddiad Gwybodaeth i Rieni, a gyrhaeddodd 18,500 o bobl ac a gafodd ei rannu 87 o weithiau.

4. Heriau Allweddol yn 2022-23 ac Yn y Dyfodol

4.1 Roedd angen llawer o staff i weithredu'r system ddigidol genedlaethol newydd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant a'r newid o waddol yr hen system. Rydym yn derbyn cyllid ar gyfer 1.6 aelod o staff ond roedd y Tîm GGiD cyfan yn ymwneud ag ateb ymholiadau, dysgu system newydd a sicrhau bod pob darparwr gofal plant wedi'i gofrestru ar y system cyn ei lansio. Fe wynebom heriau hefyd gyda'r system teleffoni cwmwl newydd, lle nad oeddem yn gallu cysylltu trwy rwydwaith preifat rhithwir (VPN) y Fro. Fodd bynnag, gwnaethom oresgyn y problemau hyn gan sicrhau pontio di-dor.

4.2 Rydym wedi gweld gostyngiad yn nifer y gwarchodwyr plant yn y Fro ac mae llawer o ddarparwyr gofal plant wedi nodi anawsterau wrth recriwtio staff gofal plant. Mae gennym ardaloedd ac ysgolion penodol lle nad ydym wedi gallu dod o hyd i ofal plant i rieni. Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Tîm Gofal Plant a'r Blynnyddoedd Cynnar a Dechrau'n Deg i edrych ar ddatblygu gofal plant newydd, cynyddu swm y gofal plant presennol a hefyd codi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd ynghylch dewis gwarchod plant a gofal plant fel gyrfa. Dyma un o'r postiadau 'pacey' rydym wedi'u defnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn helpu i hyrwyddo gwarchod plant fel opsiwn gyrfa.



4.3 Rydym wedi gweld nifer o newidiadau o ran staffio; cawsom gyllid ychwanegol ar gyfer Cynorthwydd Cymorth Cynnig Gofal Plant rhan amser, i helpu gyda'r system ddigidol genedlaethol, a ddechreuodd ym mis Gorffennaf 2022. Gadawodd ein Swyddog Allgymorth ym mis Awst 2022 ac fe recriwtiwyd swyddog newydd gennym ym mis Ionawr 2023. Oherwydd swyddi gwag a nifer o staff yn lleihau eu horiau, roeddem yn gallu recriwtio aelod dros dro o staff drwy asiantaeth i gefnogi gyda gwaith y tîm. Mae'r adran Rheoli Adnoddau a Diogelu wedi cael ei hailstrwythuro, gan arwain at newid Rheolwr Tîm a Rheolwr Gweithredol ac mae'r Tîm Dewis Rhanbarthol bellach wedi ymuno â'r GGiD i ffurfio'r Tîm Gwybodaeth Gofal Cymdeithasol newydd.

4.4 Rydym yn derbyn cyllid drwy Teuluoedd yn Gyntaf i weinyddu'r Mynegai, sef cyllid dros dro am 2 flynedd ac ni fu codiad yn swm y cyllid i dalu am y cynnydd yng nghostau gwasanaethau, cyflenwadau a chyflogau. Mae risg y bydd angen lleihau nifer y cylchlythyrau copi caled neu roi'r gorau i argraffu.



4.5 Rydym wedi gweithio gyda chydweithwyr i edrych ar wella cronfa ddata'r Mynegai ac rydym wedi symud i Microsoft Forms. Byddai'r meddalwedd 'Power Automate' yn ateb meddalwedd delfrydol i wella llif gwaith, lleihau gwallau dynol ac o ran adnoddau staff. Fodd bynnag, mae problemau diogelwch gyda defnyddio system cwmwl ac mae angen i TGCh ddatrys y rhain cyn y gellir eu defnyddio.

5. Ymholiadau GGiD ar gyfer 2022-23

Mae'r GGiD yn derbyn ymholiadau gan rieni, gofalywyr a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda theuluoedd, darparwyr gofal plant a phartneriaid. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r ymholiadau wedi dychwelyd i'r arfer ac yn adlewyrchu ein hymholiadau cyn y pandemig. Mae swm y gweithgareddau allgymorth wedi cynyddu, sydd wedi creu mwy o ymholiadau a bydd yr adran hon yn edrych ar ein hymholiadau'n fanylach.

Dyma rai enghreifftiau o'r ymholiadau a gawsom y llynedd:

Dwi'n rhiant sengl sy'n gweithio a dwi'n ei chael hi'n anodd iawn delio ag ymddygiad fy mhlentyn 3 oed.

Oes gennych chi unrhyw gyrsiau rhianta ar ddelio â'r math hwn o beth y gallwn eu dilyn?

Roeddwn hefyd yn chwilio am grwpiau cymorth neu glybiau ieuencid i helpu fy merch gorbryderus hŷn i fagu mwy o hyder.

Helo, sut ydw i'n cofrestru fy mab ar gyfer y feithrinfa os gwelwch yn dda? Mae'n troi'n 3 oed ddiwedd mis Ionawr a dwi ddim yn siŵr pryd mae'n mynd i ddechrau. Mae angen gofal plant arnaf hefyd i'w ollwng yn y feithrinfa / ei gasglu oddi yno. Does gen i ddim syniad sut ydw i'n mynd i fforddio hyn?

Helo, tybed a oes gennych chi restr wedi'i diweddarau o grwpiau rhieni a phlant bach a phethau i'w gwneud ym Mhenarth neu gerllaw. Dwi wedi cael fy nghartrefu ym Mhenarth yn ddiweddar ar ôl teithio o Wcráin a dydw i ddim yn gwybod ble i ddechrau gyda grwpiau a chymorth arall a allai fod ar gael i mi?

Astudiaeth Achos

Ymholiad

Cafodd mam Wcrainaidd a phlentyn 3 oed eu lleoli gyda theulu lletyol a chysylltodd y teulu â'r GGiD. Roedd am wybod a fyddai'r fam yn gymwys i gael cyllid y Cynnig Gofal Plant 30 awr wrth wneud y cwrs SSIE (Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill) yr oedd hi am ei ddechrau. Roedd hefyd angen gofal plant ar y fam ac roedd yn chwilio am ysgol feithrin i'w phlentyn ei mynychu. Roedd hefyd yn edrych ar gymorth lleol a thrafnidiaeth ar gyfer pan fyddent yn symud allan o gartref y teulu lletyol.

Cam Gweithredu

Rhoddodd Swyddog y GGiD wybodaeth a chymorth ynghylch derbyniadau meithrin, pryd i wneud cais ac am ysgolion meithrin lleol. Hefyd daeth o hyd i ofal plant cofleidiol ar gyfer yr ysgol feithrin.

Gofynnodd i Lywodraeth Cymru a yw pobl sy'n gwneud cyrsiau Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill yn gymwys i gael y cyllid a chadarnhawyd bod hyn yn wir. Felly, helpodd Swyddog y GGiD y teulu lleotol a'r fam i wneud cais.

Canlyniad


Dechreuodd y plentyn mewn ysgol feithrin ym mis Ionawr 2023. Dechreuodd hefyd mewn lleoliad gofal plant yn y Bont-faen oedd yn cynnig gwasanaeth gollwng a chasglu. Sicrhodd y fam gyllid gan y Cynnig Gofal Plant. Cafodd hefyd wybodaeth am drafnidiaeth leol a gwybodaeth a chymorth cyffredinol i deuluoedd Wcrainaidd yn y Bont-faen.

Adborth gan y Teulu Lletyol:


Diolch yn fawr iawn am eich help gyda (plentyn). Mae bellach wedi dechrau mynychu meithrinfa x a gofal plant x. Mae (mam) hefyd yn derbyn y cynnig gofal plant llawn. Unwaith eto diolch am eich cefnogaeth.

5.1 Cyfanswm nifer yr ymholiadau

Derbyniwyd 1,619 o ymholiadau yn uniongyrchol i'r gwasanaeth, sy'n gynnydd bach ers y flwyddyn flaenorol (3.5%). Roedd y nifer uchel o ymholiadau yn 2020-21 yn bennaf o ganlyniad i rieni'n gwneud cais am Gynllun Cymorth Gofal Plant y Coronafeirws ar gyfer gweithwyr allweddol o fis Ebrill i fis Awst 2020.



Mae'n bwysig edrych ar nifer yr ymholiadau gydol y flwyddyn ac a ydynt yn dilyn patrwm tebyg flwyddyn ar ôl blwyddyn. Cawsom y swm uchaf o ymholiadau ym mis Gorffennaf a mis Ebrill a'r rheswm am hyn oedd ein Rhaglen Gweithgareddau Gwyliau'r Pasg a'n Rhaglen Gweithgareddau Haf o Hwyl. Mae ail hanner y flwyddyn yn dilyn patrwm tebyg lle mae cynnydd mewn ymholiadau ym mis Tachwedd, mis Ionawr a mis Mawrth, sy'n bennaf oherwydd hyrwyddo dechrau'r cyfnod ymgeisio ar gyfer cyllid y Cynnig Gofal Plant.



Gwefan Gwybodaeth Gofal Plant Cymru


Gall rhieni hefyd fynd i wefan [Gwybodaeth Gofal Plant Cymru](#) chwilio am ofal plant, gweithgareddau a chefnogaeth i'w hunain. Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth o gyfeiriadur adnoddau Dewis Cymru ac mae wedi'i dylunio fel llwyfan sy'n hawdd i rieni ei ddefnyddio. Mae GGiDau yng Nghymru yn rheoli'r wybodaeth, yn sicrhau ei bod yn cael ei diweddarw ac yn codi ymwybyddiaeth am y wefan ymhlith rhieni, darparwyr a gweithwyr proffesiynol. Rydym hefyd yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu a gwella'r wefan.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, edrychwyd ar dudalennau'r Fro 10,800 o weithiau ac mae bron i 4,000 o bobl wedi'u defnyddio.




5.2 Pwnc Ymholiadau

Mae natur yr ymholiadau dros y ddwy flynedd ddiwethaf ers y pandemig, wedi aros yn weddol gyson, gyda'r mwyafrif o ymholiadau yn chwilio am ofal plant a chyllid Gofal Plant (51% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a 54% o'r ymholiadau yn 21-22). Fodd bynnag, mae ambell eithriad - mae nifer yr ymholiadau am wybodaeth am 'Gymorth Anghenion Ychwanegol a'r Mynegai' wedi cynyddu 45%. Mae hyn yn bennaf oherwydd cynnydd mewn atgyfeiriadau i'r Mynegai. Rydym hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymholiadau am 'Ddarpariaeth Gwyliau' a 'Chymorth gyda Chostau Gofal Plant a Chymorth Ariannol'. Mae ymholiadau am ddarpariaeth Dechrau'n Deg wedi parhau'n gyson ond rydym yn rhagweld y bydd y rhain yn cynyddu dros y flwyddyn nesaf wrth i'r ehangiad i blant 2 oed gael ei gyflwyno ledled y Fro.




5.3 Pwy sydd wedi cysylltu â'r GGID?

Roedd tri chwarter yr holl ymholiadau gan rieni neu ofalwyr, sydd wedi cynyddu ychydig ers y flwyddyn flaenorol. Mae hyn hefyd yn wir am ymholiadau gan ddarparwyr gofal plant, sydd hefyd wedi cynyddu ychydig. Mae nifer yr ymholiadau gan weithwyr proffesiynol eraill wedi gostwng ychydig.



5.4 Dull Ymholi

Gwnaed dros hanner yr holl ymholiadau dros y ffôn, sy'n gyson â blynyddoedd blaenorol. Bu cynnydd yn nifer yr ymholiadau o'r wefan, oherwydd ein ffurflen ymholiadau ar-lein a bu cynnydd sylweddol yn nifer yr ymholiadau drwy allgymorth (cynnydd o 258%). Fodd bynnag, bu gostyngiad yn nifer yr ymholiadau drwy'r cyfryngau cymdeithasol.



5.5 Ffynhonnell Ymholiadau


Roedd chwarter yr holl ymholiadau gan bobl sydd wedi cysylltu â'r gwasanaeth o'r blaen (26%). Felly, roedd 74% yn gysylltiadau newydd.

Cafodd 12% o bobl wybod am y gwasanaeth drwy wefan y Fro a 12% drwy chwilotwr.

Rydym wedi gweld y cynnydd mwyaf yn nifer yr ymholiadau drwy allgymorth, sydd dair gwaith yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, cyhoedduswyd a Teuluoedd yn Gyntaf, sydd 4 gwaith yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Rydym wedi gweithio'n agos gyda Llinell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf dros y

flwyddyn ddiwethaf i sicrhau atgyfeirio di-dor i'r Mynegai os yw rhieni'n cysylltu â hi a bod ganddynt blentyn ag anabledd neu angen ychwanegol.

Ar y llaw arall, rydym wedi gweld gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau o 'wasanaethau iechyd' ac 'Addysg', felly gallwn dargedu mwy o waith codi ymwybyddiaeth at y gweithwyr proffesiynol hyn y flwyddyn nesaf.




5.6 Perfformiad y Wefan

Mae'r GGiD yn sicrhau bod gwybodaeth i deuluoedd ar gael ac yn gyfredol ar [dudalennau gwe'r GGiD](#). Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am ddewis gofal plant, iechyd a lles yn y teulu, rhaglenni rhianta, dechrau'r feithrinfa, magu plentyn yn ddwyieithog a llawer mwy. Mae gennym hefyd adran gynhwysfawr ar gyfer darparwyr gofal plant, gan gynnwys dechrau gyrfa gofal plant, hyfforddiant a grantiau i ddarparwyr.

Mae'r graff isod yn dangos nifer y weithiau yr edrychwyd ar dudalennau dros y tair blynedd diwethaf ac rydym wedi eu rhannu i'r tudalennau yr edrychwyd arnynt fwyaf sef y 'Rhaglen Gweithgareddau Gwyliau', y 'Cynnig Gofal Plant' a gweddill tudalennau gwe'r GGiD. Edrychwyd ar y tudalennau 53,830 o weithiau dros y flwyddyn ddiwethaf, sy'n gynydd o 22% ers y flwyddyn flaenorol. Mae hyn oherwydd y 'Rhaglen Gweithgareddau Haf o Hwyl', a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2022. Gweithiodd y GGiD yn agos gyda chydweithwyr o'r Tîm Byw'n Iach i gasglu'r wybodaeth am weithgareddau a chynhyrchodd raglen ar-lein.

Mae nifer y bobl yn edrych ar dudalen y Cynnig Gofal Plant wedi lleihau a allai fod oherwydd y gwasanaeth digidol cenedlaethol newydd, lle mae rhieni'n gwneud cais am gyllid y Cynnig Gofal Plant yn ganolog ar wefan Llyw.Cymru. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn parhau wrth i'r ymgyrch gyfathrebu genedlaethol gael ei chyflwyno.



6. Adborth

6.1 Ein nod yw cysylltu â phawb sy'n cysylltu â'r gwasanaeth i gael adborth, er mwyn helpu i ddatblygu'r gwasanaeth a sicrhau bod pobl yn derbyn y wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Rydym hefyd yn coladu sylwadau a dderbynnir gan bobl ar ôl iddynt ddefnyddio'r gwasanaeth.

Dim ond adborth gan 16 o bobl y llwyddon ni i'w gael, a chyflwynwyd sylwadau gan 20 o bobl eraill. Er bod y mwyafrif o'r adborth yn gadarnhaol iawn, rhoddodd ychydig o bobl sgôr wael i ni, ond roedd y sylwadau am y diffyg gwasanaethau sydd ar gael, yn hytrach na'r gwasanaeth a gafwyd gan y GGiD.

*Cafodd **81%** y wybodaeth gywir pan oedd ei hangen arnynt*

*Dwedodd **87%** y byddent yn argymhell ein gwasanaeth i bobl eraill*

*Dwedodd **81%** fod eu profiad yn wych neu'n dda iawn.*

*Dwedodd **63%** fod y wybodaeth a roddwyd wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol iddynt hwy a'u teulu*

Dwi'n gwerthfawrogi eich amser a'ch trylwyredd! Rydych wedi bod mor gymwynasgar. Diolch yn fawr iawn am y rhestr, mae'n ei gwneud yn llawer llai brawychus!

Gwnaeth yr 'aelod o staff' hwnnw gymaint i mi ag y gallai ar yr alwad ac roedd yn gefnogol iawn pan des i'n ofidus. Cafodd effaith gadarnhaol ar fy meddylfryd/diwrnod. Diolch.

Ymateb cyflym a hyfryd, yn gymwynasgar ac yn addysgiadol iawn!

Yn gywir ac yn amserol! Pleser delio â nhw wedi misoedd o wneud llawer o waith gweinyddu ar gyfer y cynllun cartrefi i Wcráin

Roedd y fenyw y siaradais â hi mor gymwynasgar ac yn addysgiadol iawn a rhoddodd yr holl wybodaeth angenrheidiol a mwy i mi. Dwi'n ddiolchgar iawn i'r 'aelod o staff' a roddodd gymaint o help i mi. Roedd hi'n wych a thawelodd fy meddwl.

Hefyd mae pob un ohonoch sy'n gweithio yno mor wych. Mor gymwynasgar, caredig ac ymatebol. Dwi'n ddiolchgar iawn i chi i gyd a dwi'n gobeithio eich bod yn gwybod pa mor wych ydych chi i gyd.

7. Camau Gweithredu Allweddol ar gyfer 2023-24

7.1 Parhau i weithio gyda phartneriaid gan gynnwys Cymunedau am Waith, Canolfan Byd Gwaith, Dechrau'n Deg, Dysgu Oedolion yn y Gymuned i roi gwybodaeth ac arweiniad i rieni a gofalwyr sy'n dychwelyd i'r gwaith / aros mewn cyflogaeth a'r rhai sy'n chwilio am hyfforddiant, cymorth ariannol, opsiynau a chynlluniau gofal plant.

7.2 Hyrwyddo'r gwaith o ehangu'r Cynnig Gofal Plant i rieni mewn hyfforddiant ac addysg drwy weithio gyda phartneriaid a chodi ymwybyddiaeth.

7.3 Ymchwilio i lyfrau fflipio digidol i sicrhau bod cylchlythyr y Mynegai a thaflenni digidol yn hygyrch i bobl â nam ar eu golwg ac anabledau.

7.4 Gweithio gyda lleoliadau gofal plant y blynyddoedd cynnar i roi pecynnau gwybodaeth i deuluoedd newydd, gan hyrwyddo'r GGiD, y Cynnig Gofal Plant, cymorth ariannol a'r Mynegai.

7.10 Ennill Gwobr Ansawdd Teuluoedd yn Gyntaf.

7.6 Gwella tudalennau gwe'r GGiD i sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn hawdd a gweithio gyda'r Tîm Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar i ail-frandio'r tudalennau gwe ar gyfer darparwyr gofal plant.

7.7 Hyrwyddo gwefan Gwybodaeth Gofal Plant Cymru fel y lle i gael gwybodaeth i rieni a chynyddu nifer yr adnoddau ar Dewis Cymru.

7.8 Gweithio gyda'r Tîm Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar i annog pobl i weithio fel gwarchodwyr plant ac i weithio yn y sector gofal plant.

8. Manylion Cyswllt

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

Cyngor Bro Morgannwg

Swyddfeydd y Dociau

Heol yr Isffordd

Y Barri, CF63 4RT

01446 704704

fis@valeofglamorgan.gov.uk



Facebook: [@VOGFIS](https://www.facebook.com/VOGFIS)

Twitter: [@ValeFIS](https://twitter.com/ValeFIS)